
# **Prosiect Chwarae Cynhwysol**

Rydyn ni'n gallu cael cyllid drwy Grant Gwyliau Gwaith Chwarae Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2023-2024) ar gyfer rhaglenni sy'n cefnogi newyn gwyliau. Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, rydyn ni'n treialu cynllun newydd i roi mynediad i gyfleoedd chwarae yn ystod y gwyliau i blant o'r teuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae hwn yn gynllun peilot ar gyfer Hanner Tymor y Gwanwyn gyda'r potensial i redeg drwodd i'r cyfnodau gwyliau dilynol, os oes cyllid ar gael.

Mae'r prosiect Chwarae Cynhwysol wedi'i dargedu at blant oed Ysgol Gynradd (derbyn i flwyddyn 6). Rhaid i leoliadau gofal plant fod wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gyda darpariaeth yn ystod oriau gwyliau ysgol i wneud cais i fod yn rhan o'r prosiect. Nod y prosiect yw cynnig cyfleoedd i blant penodol gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden.

Mae gan Chwarae Cynhwysol ddwy gangen: un i gefnogi plant oedran ysgol ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r llall i gefnogi plant oedran ysgol o deuluoedd sy'n agored i niwed.




## **Chwarae Cynhwysol – Plant Oedran Ysgol ag ADY**

Bydd rhieni **yn talu** am y sesiwn clwb gwyliau, ar gyfradd swm penodol y clwb fesul plentyn. Bydd y cyllid grant yn caniatáu i'r darparwyr gyfrannu at gymarebau staffio uwch ar gyfer chwarae cynhwysol tra'n diwallu anghenion unigol y plentyn. Bydd hwn yn cael ei ddyfarnu i ddarparwr i gefnogi ar y cyd â phlant eraill a allai fod angen cymorth hefyd i hwyluso chwarae neu reoli perthnasoedd â chyfoedion. Mae hwn yn addas ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol brif ffrwd sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) ysgol ac nad ydyn nhw ar gofrestr Ysgol Arbenigol.

**Gwybodaeth allweddol ar gyfer y gangen ADY:**

- Bydd plant cymwys mewn dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd prif ffrwd (gan gynnwys ar y gofrestr mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol)
- Cyfanswm o ddwy sesiwn 6 awr yr wythnos yn ystod y gwyliau
- £30 y sesiwn 6 awr y plentyn tuag at gostau'r lleoliad / cymorth ychwanegol

- Bydd trefniadau cinio yn unol â gweithdrefnau cinio arferol y lleoliad (e.e. gall rhieni ddarparu pecyn bwyd)
- Bydd plant yn cael eu lleoli yn ôl dewis rhieni o'r rhestr o leoliadau cymeradwy sy'n cymryd rhan yn y cynllun, sydd ar gael ar Wefan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili
- Bydd cyllid ar gael i leoliadau trwy ffurflen LIPU Chwarae Cynhwysol (Lleoliad Plentyn Unigol) ar gyfer yr oriau sydd wedi'u drefnu, sydd ar gael ar Wefan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili

**Proses ADY:**

1. Mae lleoliadau yn cael eu gwahodd i lenwi Datganiad o Ddiddordeb (DoDd) i gynnal y prosiect Chwarae Cynhwysol.
2. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd cofnod y lleoliad ar Dewis yn cael ei ddiweddaru gyda'r hashnod '#ChwaraeCynhwysol' ac felly'n ymddangos ar restr lleoliadau cymeradwy Chwarae Cynhwysol.
3. Bydd Cydlynydd ADY ysgolion yn hyrwyddo'r ddarpariaeth hon i rieni y mae gan eu plant CDUau ysgol.
4. Unwaith y bydd Cydlynydd ADY yr Ysgol wedi trafod y ddarpariaeth hon gyda rhieni, a rhieni wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan, bydd Cydlynydd ADY yr Ysgol yn e-bostio ymyrraethgynnar@caerffili.gov.uk gyda'r manylion canlynol am y plentyn:
    - Enw cyntaf, Cyfenw a Dyddiad Geni
5. Bydd Tîm y Blynyddoedd Cynnar yn anfon y cod cymhwysedd at Gydlynydd ADY yr Ysgol i'w rannu â'r rhiant/rhieni, sydd wedyn yn cadw eu lle gyda'r lleoliad cymeradwy o'u dewis ac yn cofrestru gyda'r lleoliad gan ddefnyddio eu gweithdrefn gofrestru arferol.
6. Bydd y lleoliad, gyda'r rhiant/rhieni, yn llenwi Ffurflen Lleoliad Plant Unigol (LIPU) Chwarae Cynhwysol ar Wefan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.
7. Unwaith y bydd yr LIPU wedi'i gymeradwyo, bydd y lleoliad a'r rhiant/rhieni yn derbyn e-bost gyda manylion y sesiynau sydd wedi'u cymeradwyo.
8. Bydd lleoliadau yn derbyn cofrestr presenoldeb i'w chwblhau a'i chyflwyno erbyn 5pm ar ddydd Gwener yr wythnos wyliau.
9. Bydd taliadau'n cael eu gwneud ar ôl cwblhau a chyflwyno'r gofrestr.

**<u>Chwarae Cynhwysol – Teuluoedd sy'n Agored i Niwed</u>**

Yn y gangen teuluoedd bregus **nid yw'r rhieni yn talu** am y sesiwn clwb gwyliau eu hunain, gan fod lleoedd yn cael eu hariannu gan Grant Gwyliau Gwaith Chwarae. Mae'r gangen hon yn cefnogi plant agored i niwed sydd yn y dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 i gael mynediad i leoliad clwb gwyliau at ddibenion chwarae, cymdeithasol a hamdden. Plant sy'n agored i niwed yw'r rhai nad oes ganddynt fynediad at brofiadau cyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol a byddan nhw'n cael eu nodi gan Dîm Cymorth i Deuluoedd y Blynyddoedd Cynnar.

**Gwybodaeth allweddol ar gyfer y gangen Teuluoedd Agored i Niwed:**

- Bydd plant cymwys mewn dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd prif ffrwd (gan gynnwys ar y gofrestr mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol)
- Cyfanswm o ddwy sesiwn 6 awr yr wythnos yn ystod y gwyliau
- £30 y sesiwn 6 awr y plentyn a chost cinio am £2.50
- Bydd teuluoedd cymwys yn cael eu nodi gan ein Tîm Cymorth i Deuluoedd

**Proses Teuluoedd sy'n Agored i Niwed:**

1. Mae lleoliadau yn cael eu gwahodd i lenwi Datganiad o Ddiddordeb (Dod) i gynnal y prosiect Chwarae Cynhwysol.
2. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd cofnod y lleoliad ar Dewis yn cael ei ddiweddaru gyda'r hashnod '#ChwaraeCynhwysol' ac felly'n ymddangos ar restr lleoliadau cymeradwy Chwarae Cynhwysol.
3. Bydd Tîm Cymorth i Deuluoedd y Blynyddoedd Cynnar yn nodi'r plant hynny a fydd yn gymwys ar gyfer y cynllun ac yn rhoi cod Cymhwysedd i'r rhiant/rhieni.
4. O'r rhestr lleoliadau cymeradwy, bydd y rhiant/rhieni yn cael eu cefnogi gan Dîm Cymorth i Deuluoedd y Blynyddoedd Cynnar i gysylltu â'r lleoliad o'u dewis i gadw lle a chofrestru gyda'r lleoliad gan ddefnyddio eu gweithdrefn gofrestru arferol.
5. Bydd y lleoliad yn cwblhau, gyda'r rhiant/rhieni. y Ffurflen Lleoliad Plant Unigol (LIPU) Chwarae Cynhwysol ar Wefan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.
6. Unwaith y bydd yr LIPU wedi'i gymeradwyo, bydd y lleoliad a'r rhiant/rhieni yn derbyn e-bost gyda manylion y sesiynau i'w hariannu.
7. Bydd lleoliadau yn derbyn cofrestr presenoldeb i'w chwblhau a'i chyflwyno erbyn 5pm ar ddydd Gwener yr wythnos wyliau.
8. Bydd taliadau'n cael eu gwneud ar ôl cwblhau a chyflwyno'r gofrestr.

## Datganiad o Ddiddordeb

Mae gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili yn gwahodd Datganiadau o Ddiddordeb gan ddarparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac sy'n darparu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r cynllun hwn, llenwch y ffurflen isod a'i hanfon drwy e-bost at hwbyblynyddoeddcynnar@caerffili.gov.uk erbyn 10 Ionawr 2024.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=vGg9Ws-tLkaRgSm0tCsxTVaG9EbZf6RMooe8Di06JZ1UN1ZKRkVZTUhFUzRMSEtBN1hUTUlYS0ZCRi4u&lang=cy-GB

Dylai'r cais gyrraedd erbyn **3pm dydd Mercher 10 Ionawr 2024** fan bellaf

## Cwestiynau Cyffredin

**Pa oedran y gall plant gael mynediad i'r cynllun?**

Plant oed ysgol gynradd (sy’n mynychu dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd prif ffrwd, gan gynnwys Canolfannau Adnoddau Arbenigol), plant â dyddiad geni rhwng 01/09/2012- 31/08/2019.

**Pa blant all gael mynediad i Chwarae Cynhwysol o dan y term ‘ADY’?**

Plant sydd wedi’u nodi ag ADY ac sydd felly â Chynllun Datblygu Unigol yn yr ysgol sy’n cael ei adolygu’n flynyddol gyda gweithwyr proffesiynol a rhieni trwy gyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

**Pa blant all gael mynediad i Chwarae Cynhwysol o dan y term ‘agored i niwed’?**

Y plant sy'n gallu cael mynediad i'r prosiect yw'r rhai y mae eu teuluoedd yn gweithio gyda Thîm Cymorth i Deuluoedd y Blynyddoedd Cynnar ar hyn o bryd. Mae enghreifftiau’n cynnwys teuluoedd sydd mewn llety brys / llety â chymorth ar hyn o bryd, y rhai sydd â Chynllun Gofal a Chymorth neu gynllun Cymorth Statudol ar waith, neu gymhlethdodau eraill sydd angen cymorth teuluol pwrpasol.

**Sut byddwn ni’n gwybod os ydyn ni’n gallu cynorthwyo anghenion plant unigol gyda gweithiwr chwarae cynhwysol?**

Fel y drefn arferol ar gyfer croesawu plant newydd, byddwch chi’n gweithio gyda’r rhiant/rhieni i gwblhau’r wybodaeth ofynnol ar eich ffurflen gofrestru.

Yn y Datganiad o Ddiddordeb, gallwch chi dynnu sylw at unrhyw fanteision neu gyfyngiadau yr ydych chi’n eu rhagweld wrth gefnogi’r oriau chwarae cynhwysol e.e. mae gan eich lleoliad fan chwarae awyr agored diogel. Byddwch chi’n dilyn eich trefn arferol ar gyfer cofrestru plant a byddwch chi’n penderfynu a ydych chi’n gallu diwallu anghenion penodol plentyn. Bydd angen i chi gwrdd â’r teulu/plentyn cyn i’r sesiynau ddechrau er mwyn deall yr hyn y gallai fod ei angen arnoch i sicrhau y bydd oriau’r gweithiwr chwarae cynhwysol yn cael eu defnyddio i hwyluso chwarae a bod anghenion diogelwch a gofal y plentyn yn cael eu diwallu fel blaenoriaeth.

**Oes modd i ni gael mynediad at unrhyw hyfforddiant ychwanegol i gefnogi darpariaeth Chwarae Cynhwysol?**

Bydd lleoliadau Chwarae Cynhwysol yn cael cynnig hyfforddiant i wella eu darpariaeth yn benodol wrth greu man chwarae cynhwysol a sut i gynnal asesiadau risg deinamig.

**A allwn ni hyrwyddo'r prosiect i deuluoedd penodol yr ydyn ni eisoes yn ymwybodol ohonyn nhw?**

Bydd y prosiect yn cael ei hyrwyddo drwy’r Tîm Cymorth i Deuluoedd y Blynyddoedd Cynnar a Chydlynwyr ADY yr ysgolion.